**Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd**

# *Ffydd ar y rheng flaen…Cefnogi ein cyn-filwyr*

Ystafell Gynadledda 21, Tŷ Hywel, dydd Mawrth 3 Mawrth, rhwng 12.15 a 13.15

Yn bresennol:

1. Darren Millar AC, y Ceidwadwyr, Gorllewin Clwyd (cyd-gadeirydd)
2. William Graham AC, y Ceidwadwyr, Dwyrain De Cymru (cyd-gadeirydd)
3. Mike Hedges AC, Llafur, Dwyrain Abertawe
4. Russell George AC, y Ceidwadwyr, Sir Drefaldwyn
5. Jim Stewart, Swyddog Materion Cyhoeddus ac Eirioli, Cynghrair Efengylaidd Cymru (ysgrifennydd)
6. Kieran Webster, Arweinydd y Gaplaniaeth, Cartrefi Cymru ar gyfer Cyn-filwyr, Alabaré (siaradwr)
7. Andrew Lord, Prif Weithredwr, Alabaré
8. Pierre Cornlouer, Alabaré
9. Carol Wardman, Cynghorydd yr Esgobion ar yr Eglwys a Chymdeithas, yr Eglwys yng Nghymru
10. Stanley Soffa, Cadeirydd Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru
11. Chris Cooke, Eglwys Rhyddid
12. Philip Manghan, Cynghorydd ar gyfer y Gwasanaeth Addysg Gatholig yng Nghymru, yr Eglwys Gatholig
13. Ed Holland, Cyfarwyddwr, Holland Heritage
14. Y Parchedig Carl Gidney
15. Chris Heavyside
16. Peter Evans, Rheolwr Materion Cyhoeddus Cymru, y Lleng Brydeinig Frenhinol
17. Elfed Godding, Ysgrifennydd Cyffredinol, Cynghrair Efengylaidd Cymru
18. Craig Lawton (cynorthwyydd i Suzy Davies AC)

Ymddiheuriadau:

1. Bethan Jenkins AC
2. Simon Thomas AC
3. Mohammad Asghar AC
4. Janet Finch-Saunders AC
5. Peggy Jackson, yr Eglwys yng Nghymru
6. Peter Dewi, Cyngor yr Eglwysi Rhyddion
7. Christine Abbas, y gymuned Baha'i
8. Lisa Gerson, y gymuned Iddewig
9. Colin Heyman, y gymuned Iddewig
10. Sally Thomas, Cytûn
11. Carys Moseley, yr Eglwys Bresbyteraidd
12. Yr Esgob John Davies, Esgob Aberhonddu ac Abertawe

*Nid yw'r Grŵp Trawsbleidiol hwn yn gwahaniaethu rhwng aelodau'r grŵp a gwesteion allanol, gan fod y lleoedd yn y cyfarfodydd yn cael eu llenwi ar sail y cyntaf i'r felin.*

Cofnodion

1. Estynnodd William Graham AC groeso i bawb, nododd yr ymddiheuriadau a gafwyd gan yr Aelodau Cynulliad, a gofynnodd i bawb gyflwyno'u hunain yn gryno.

2. Nododd y Cadeirydd nad oedd unrhyw faterion yn codi o'r cyfarfod blaenorol.

3. Cyflwynwyd Kieran Webster o'r elusen *Alabaré.* Rhoddodd gyflwyniad ar *Ffydd ar y rheng flaen…Cefnogi ein cyn-filwyr*.

4. Cafwyd trafodaeth a sesiwn holi ac ateb ar ôl y cyflwyniad hwn.

5. Y camau gweithredu a ddeilliodd o'r cyfarfod oedd:

    a. Ysgrifennu at y Gweinidog yn Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb dros dai, gan ofyn pa waith y mae'n ei wneud i sicrhau cynaliadwyedd cynlluniau tai â chymorth i gyn-filwyr sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd drwy grantiau sy'n gysylltiedig â LIBOR.
    b. Ysgrifennu at arweinwyr ffydd ac arweinwyr enwadol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau sy'n seiliedig ar ffydd sydd ar gael i gyn-filwyr yng Nghymru.
    c. Ysgrifennu at y Gweinidog yn Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb dros iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan ofyn pa waith sy'n cael ei wneud i sicrhau bod unrhyw reoliadau sy'n cael eu datblygu o ganlyniad i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn adlewyrchu'n ddigonol yr angen i ddiwallu anghenion ysbrydol defnyddwyr gwasanaeth.
    d. Ysgrifennu at y Gweinidog yn Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb dros addysg, gan ofyn iddo sicrhau nad yw addysg grefyddol yn cael ei herydu mewn unrhyw gwricwlwm Cymreig newydd sy'n deillio o waith adolygiad Donaldson.

6. Daeth Darren Millar AC â'r cyfarfod i ben, gan nodi y byddai manylion y cyfarfod nesaf yn cael eu dosbarthu drwy e-bost gan Jim Stewart.